Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 29.01.2021

Roedd athrawon CA2 wedi gwirioni gweld a sgwrsio gyda dysgwyr eu dosbarthiadau dros y platfform cyfathrebu '*Google Meet*' wythnos yma. Diolch i bawb am wneud y cyfarfodydd yn bosib. Mae pawb yn edrych ymlaen at y cyfarfodydd nesaf.

Teachers from KS2 loved seeing and chatting to pupils from their classes virtually over the communication platform Google Meet this week. Thank-you to everyone who made the meetings possible. Everyone is looking forward to the next meetings.

Gwaith Celf Bl1



Wythnos yma, mae dysgwyr Blwyddyn 1 wedi bod yn ail-greu siapiau haul, mynyddoedd a chaeau er mwyn creu tirlun lliwgar yn arddull yr arlunydd enwog Ted Harrison.



This week, learners from Year 1 have been looking at the work of the famous artist Ted Harrison and creating their own versions of art in his unique style.

Diolch unwaith eto wythnos yma i'r plant am eu hymroddiad i ddysgu o bell (ac i chi fel rieni / gwarchodwyr am eich cefnogaeth!). Rydym yn falch iawn o'r gwaith rydym yn derbyn gan y plant.

Thank-you to the children once again this week for their dedication to learning from afar (and to you as parents / guardians for your support!). We are very proud of the work we receive from the children.

Dilynwch ni ar Drydar

@YsgolDewiSant

Follow us on Twitter

1,875 o ddilynwyr

1,875 followers

Cyswllt wythnosol

Mae llawer ohonoch yn gyrru gwaith yn ôl at yr athrawon a rydym yn ddiolchgar iawn am hyn. Mae'n hanfodol ein bod yn cael cyswllt **wythnosol gyda phob plentyn**. Cysylltwch gyda'r ysgol drwy yrru gwaith i fewn neu gyswllt trwy Dojo / galwad ffôn pob wythnos os gwelwch yn dda. Os nad ydym yn clywed gennych erbyn ddiwedd Dydd Mercher pob wythnos, byddwn yn eich ffonio ar Ddydd Iau neu Gwener.

Weekly contact

Many of you are returning completed work back to the Teachers and we are grateful for this. It is vital that we have contact with **every child, every week** . Please contact the school by returning work, liking a post or contacting through Dojo and / or phone call every week. If we do not hear from you by the end of day every Wednesday, we will be contacting you by phone on the Thursday and Friday.



Poster ymwybyddiaeth cyflymder wrth ddreifio

Mae Ysgol Dewi Sant wedi derbyn gwahoddiad gan Gyngor Cymuned Rhuddlan yn gofyn i'r dysgwyr cynllunio poster a fydd yn addas i'w arddangos o amgylch y gymuned i geisio atal dreifwyr rhag gyrru yn rhy gyflym. Mae croeso i unrhyw un o blant Ysgol Dewi Sant cymryd rhan. Gyrrwch eich cynllun dros e-bost i dewi.sant@denbighshire.gov.uk. Rydym yn edrych ymlaen i weld y ceisiadau!

Speeding awareness poster

Ysgol Dewi Sant has received an invitation from Rhuddlan Community Council inviting the learners to design a poster that will be suitable to display around the community in an attempt to prevent motorists from driving using excessive speed in the area. All children at Ysgol Dewi Sant are welcome to take part. Send your entries by email to dewi.sant@denbighshire.gov.uk. We look forward to seeing the posters!

Mae'r athrawon yn awyddus i rannu rhestr o wefannau ac appiau defnyddiol gyda chi. Cliciwch ar y linc isod i weld rhestr o wefannau ac appiau.

The teachers are eager to share these websites and apps with you. Click on the link below for a list of useful apps and websites.

d074a4793175.pdf (classdojo.com)

Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen

Fel y gwyddoch wythnos yma buom yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen yma yng Nghymru, sef diwrnod cariadon Cymru. Aeth Blwyddyn 6 ati i gyfansoddi cerddi acrostig fel rhan o'r dathliadau.

As you are aware, this week we celebrated St Dwynwen's day here in Wales, a day to celebrate love. Year 6 composed acrostic poems as a part of the celebrations.







